


**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll**
**A gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen**
**Nos Fawrth 8fed o Dachwedd am 7:30 y.h**

**Yn Bresennol**

Cynghorwyr – William Jones (WJ), John Owen (JO), Gwyn D Roberts (GR), Sianelen Pleming (SP) Lisbeth James (LJ), Emlyn Hughes (EH).

1. **Ymddiheuriadau –** Olwen Roberts, Gwilym Williams a'r Cyng Aled Jones.

2. **Hysbysebiadau y Cadeirydd -** Cadeirwyd y cyfarfod gan Lisbeth James, yr Is Gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd.

2.1 Cafwyd croeso gan Gadeirydd y cyfarfod, Lisbeth James. Yn ogystal croesawyd Griffith John Lesley Jones i'r cyfarfod.

2.2 Sedd Wag:- Cynigiodd JO, eiliwyd gan EH a phenderfynodd y Cyngor gyfethol Griffith Jones, Ysgubor, Llithfaen (GJ) yn aelod o'r Cyngor i gynrychioli Ward Llithfaen. Fe'i croesawyd fel Cynghorydd newydd. *Y Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir a chwblhau unrhyw waith papur papur pellach sy'n angenrheidiol.*

3. **Datgan Diddordeb –** Neb

4. **Cofnodion**

4.1 Cynigodd John Owen fod cofnodion yr 11eg o Hydref yn gywir ac eiliodd William Jones.
.

4.2 **Dŵr yr Eifl –** Mae'r Cyng. AJ a JO wedi ymweld a'r safle a phenderfynu ar awgrymiadau i'w roi i'r Cyngor Sir i liniaru'r broblem. *Y Clerc i drefnu cyfarfod i JO a'r Swyddog Llwybrau priodol yn y Cyngor Sir i ymweld a'r safle fel y gall JO esbonio'r cynigion.*

4.3 **Y Ganolfan** – Esboniodd y Clerc fod prydles bresennol y Ganolfan yn nodi fod angen i'r Cyngor Cymuned ddychwelyd y Ganolfan mewn 'Cyflwr Da'.

Nododd SP ei bod wedi darganfod mai adroddiad 'Tân' a ddarparwyd yn 2012 oedd yr arolwg y cyfeirir ato yn eitem 4.3 o gofnodion yr 11eg o Hydref. Mae wedi gofyn am gopi o'r Arolwg Proffesiynol a ddarparwyd ar y tô. Nododd GJ ei fod o'r farn nad oes asbestos yn nheils nenfwd y Ganolfan.

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Cyfeirwyd at y brydles ddrafft newydd a dderbynwyd gan y Cyngor Sir.Penderfynodd y Cyngor fod angen cyflogi Cyfreithiwr i'w cynghori a'u cyrychioli wrth ymgymryd a'r broses o ddatblygu prydles sy'n bodloni eu anghenion. *Y Clerc i:*

- *holi Un Llais Cymru os oes ganddynt ddetholiad o Gyfreithwyr sy'n arbenigo yn y maes penodol hwn,*
- *gychwyn y broses o adnabod a phenodi Cyfreithiwr i weithredu ar ran y Cyngor yng nghyd destun y brydles.*

Nodwyd fod y brydles ddrafft newydd yn uniaith Sasesneg. *Y Clerc i dynnu sylw'r Cyngor Sir at hyn.*

*Gofynwyd i'r Clerc gysylltu gyda Un Llais Cymru am fwy o wybodaeth ynglyn a'u Gwasanaeth Ymgynghoriaeth Rheoli Eiddo. (Beth yn ei gynnig a chost ayyb.)*

4.4 **Gor-yrru yn Llithfaen** – Gan nad yw'n hysbys beth sydd wedi digwydd ers y cyfarfod yr 11eg o Hydref *gofynwyd i'r Clerc gysylltu ag o*.

5. **Ceisiadau Cynllunio** - Dim

6. **Gohebiaeth**

6.1 **Manylion cyfarfod Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE LLŷn ar yr 22ain o Dachwedd.** Bydd SP yn mynychu.

6.2 **Digwyddiadau Coffa 14-18 -** Nid oes gan y Cyngor ddigwyddiad i'w ychwanegu ar Raglen Llywodraeth Cymru?

6.3 **Ymchwilad Strategol i 'Strategaeth Newydd y Gymraeg' –** Byddai'r Cyngor yn fodlon cefnogi ymateb sydd yn cyfleu ei farn i'r ymchwiliad. *Y Clerc i chwilio am ymateb y gallant ei gefnogi.*

6.4 **Ceisiadau am gyfraniad ariannol:** Esboniodd y Clerc fod ceisiadau i law gan Marie Curie, Eisteddfod Llangollen ac Ageing Well. *Y Clerc i ofyn am gyfieithiad Cymraeg pan mae llythyr cais yn uniaith Saesneg.*

6.5 **Cais am lythyr o gefnogaeth i brosiect gan Fanc Bwyd Pwllheli –** *Y Clerc i yrru neges e-bost byr yn datgan cefnogaeth y Cyngor i waith cyffredinol Banciau Bwyd.*

6.6 Cyflwynyd pecyn o ohebiaeth amrywiol pellach i'r Aelodau er gwybodaeth. Ni chafwyd sylwadau.

7. **Unrhyw Fater Arall**

7.1**Ffrydiau gwaith gweinyddol yn deillio o newidiadau yng ngofynion y Rheoleiddwyr**

7.1.1**Rheolau Sefydlog:** Adolygwyd Rheolau Sefydlog Model Un Llais Cymru gan lenwi y bylchau angenrheidiol i ateb gofynion y Cyngor. *Y Clerc i nodi'r Rheolau Sefydlog fel eitem benodol ar raglen cyfarfod y 13 Rhagfyr i'w mabwysiadu'n ffurfiol.*

Penderfynwyd adolygu Rheolau Ariannol model Un Llais 'run modd yng nghyfarfod y 13 Rhagfyr.

7.1.2**Presenoldeb ar yn we** – Nodwyd fod Luned Evans wedi datgan ei bod yn fodlon ymgymryd a'r gwaith o sortio'r wefan. *Y Clerc i gadw mewn cyswllt â hi.*

**8.Cyllid**

8.1 **Archwilio/cyfrifon 14/15 a 15/16 -** *Y Clerc i adrodd ar gynnydd yn y cyfarfod nesaf.*
8.2 **Rhaglygon Arianol -** Cyflwynwyd rhagolygon arianol diweddaraf 2016/17 at sylw'r Aelodau er gwybodaeth ac fe'u derbynwyd.
8.3 **Trafodion ar y gyfriflen banc ddiweddaraf**:
Derbyniadau: Dim
Taliadau: Dim
Balans cyfrif cyfredol : £4221.86
Balans Cyfrif cadw: £2743.15

Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod -
£195.48 - Hysbysfwrdd
£684.53 – Ôl dâl Clerc
£100.00 – Cyflog Clerc - Hydref
£103.37 - Costau gweinyddol

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 13eg o Ragfyr am 7:30 y.h.**

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Cyngor Cymuned
Pistyll

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347